# Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2026

## Adran 1: Cyflwyniad



This report is also available in English

**Adran 1: Cyflwyniad** ..... **3**

**1. Holl gofrestreion** ..... **4**

1.1 Categorïau cofrestru unigol a lluosog ..... 4

1.2 Cyfuniadau cofrestru lluosog ..... 5

**2. Canfyddiadau allweddol** ..... **6**

2.1 Athro ysgol ..... 6

2.2 Gweithiwr cymorth dysgu ysgol ..... 6

2.3 Athro addysg bellach ..... 7

2.4 Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach ..... 7

2.5 Pennaeth neu uwch arweinydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg bellach ..... 7

2.6 Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith ..... 8

2.7 Ymarferydd addysg oedolion ..... 8

2.8 Gweithiwr ieuenctid cymwysedig ..... 9

2.9 Gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig ..... 9

2.10 Athro ysgol annibynnol ..... 10

2.11 Gweithiwr cymorth ysgol annibynnol ..... 10

2.12 Athro sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 ..... 11

2.13 Gweithiwr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 ..... 11

# Adran 1: Cyflwyniad

### Amdanom ni

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddwyr annibynnol, proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio ymarferwyr addysg ar draws ysgolion, addysg bellach, gwaith ieuenctid, a dysgu oedolion/seiliedig ar waith.

### Cyflwyniad i Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2026

Cynhyrchwyd yr ystadegau o'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg. Mae'r wybodaeth y gallwn ei chadw ar y Gofrestr wedi ei osod yn rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysgu (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'u diwygiwyd.

Mae'r Gofrestr yn amser real ac mae'n ffynhonnell unigryw o ddata am y 13 grŵp addysg cofrestredig yng Nghymru. Nid oes data cyfatebol ar gael gan unrhyw gorff neu sefydliad arall. O ganlyniad, ni ddylid cymharu â ffynonellau eraill, fel Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion Llywodraeth Cymru (CBGY), a gyhoeddir yn flynyddol. Ar gyfer y sector ysgolion yn enwedig, ac yn wahanol i CBGY, mae data CGA yn cynnwys pob athro cyflenwi, gweithiwr peripatetig, gweithiwr llawrydd ac eraill sy'n cynnig addysg neu hyfforddiant mewn ysgol ynghyd â lleoliadau addysg eraill. Rydym hefyd yn cynnal data hanesyddol sy'n ein galluogi i ddarparu gwybodaeth tuedd. Mae copïau blaenorol o'n hadroddiadau ar gael ar gais.

Mae'r ystadegau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- cofnodir nifer gwirioneddol y cofrestreion, yn hytrach na niferoedd cyfwerth ag amser llawn
- heblaw am gyfrol yr holl gofrestreion (adran 1), sy'n nodi nifer yr unigolion ar y Gofrestr, caiff ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un categori (er enghraifft athro ysgol ac addysg bellach) eu cynnwys ym mhob cyfrol berthnasol
- dyddiad cyfrifiad y data sy'n cael ei dynnu o'r Gofrestr yw 1 Mawrth bob blwyddyn
- os oes gan gofrestrai fwy nag un cofnod cyflogaeth ar y Gofrestr (er enghraifft athro ysgol mewn ysgol ac athro addysg bellach mewn coleg), mae'r wybodaeth cyflogaeth berthnasol wedi ei ddefnyddio am bob categori y maent wedi cofrestru ynddo
- caiff cofrestreion cyflenwi eu cyfrif unwaith yn unig ym mhob cyfrol, ni waeth faint o gyflogwyr/asiantaethau y gallant fod yn gweithio iddynt
- daw'r wybodaeth ar y Gofrestr yn uniongyrchol oddi wrth yr ymarferydd a/neu eu cyflogwr
- oherwydd talgrynnu, mae'n bosibl nad 100 fydd cyfanswm y canrannau

### Ystyriaethau wrth ddarllen yr adroddiad

O dan y rheoliadau, rhaid i ymarferwyr gofrestru yn y categori neu'r categorïau ar gyfer y gwaith a wnânt, neu'r gwaith y bwriadant ei wneud. O ganlyniad, mae rhai ymarferwyr wedi'u cofrestru mewn mwy nag un categori. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ers Mai 2024, mae deddfwriaeth newydd wedi ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr dysgu oedolion, a phenaethiaid neu uwch arweinwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach i gofrestru gyda ni. O ganlyniad, am y tro cyntaf, mae data yn berthnasol i ymarferwyr dysgu oedolion a phenaethiaid ac uwch arweinwyr addysg bellach, wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn.

I ddyfynnu'r adroddiad hwn:

Cyngor y Gweithlu Addysg (2026) Ystadegau Blynyddol Gweithlu Addysg yng Nghymru 2026. Ar gael yn: (Cyrchwyd: 'dyddiad').

## 1. Holl gofrestreion

Ar 1 Mawrth 2026, roedd 91,357 o gofrestreion unigol ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA. Caiff cofrestreion gofrestru mewn un neu fwy o'r categorïau canlynol: athro ysgol, gweithiwr cymorth dysgu ysgol, athro addysg bellach, gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach, pennaeth ac uwch arweinydd addysg bellach, ymarferydd dysgu seiliedig ar waith, ymarferydd addysg oedolion, gweithiwr ieuenctid cymwysedig, gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig, athro ysgol annibynnol, gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol, athro sefydliad annibynnol arbennig ôl-16, a gweithiwr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16.

### 1.1 Categorïau cofrestru unigol a lluosog

**Tabl 1.1: Nifer y cofrestreion â chategorïau cofrestru unigol a lluosog yn 2026.**

| | 2026 | |
|---|---|---|
| | **Nifer y cofrestreion unigol ym mhob categori** | **Nifer y cofrestreion cymwysedig ym mhob categori*** |
| Athro ysgol | 30,170 | 34,443 |
| Gweithiwr cymorth dysgu ysgol | 40,578 | 45,819 |
| Athro addysg bellach | 3,873 | 6,125 |
| Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach | 2,394 | 4,440 |
| Pennaeth neu uwch arweinydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg bellach | 116 | 365 |
| Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith | 2,279 | 3,247 |
| Ymarferydd addysg oedolion | 268 | 328 |
| Gweithiwr ieuenctid cymwysedig | 366 | 440 |
| Gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig | 562 | 668 |
| Athro ysgol annibynnol | 1,707 | 2,113 |
| Gweithiwr cymorth ysgol annibynnol | 1,247 | 1,612 |
| Athro sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 | 66 | 90 |
| Gweithiwr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 | 289 | 337 |
| Categorïau lluosog[1] | 7,442 | n/a |
| **Cyfanswm** | **91,357** | **100,027** |

[1] Llynedd, cynhaliodd y CGA brosiect glanhau data i adolygu nifer y categorïau cofrestru ychwanegol a ddelir gan gofrestreion. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â chofrestreion i gadarnhau eu cyflogaeth bresennol a gwirio a oedd angen y categorïau ychwanegol. Mae'r unigolion hyn yn barhau i fod wedi'u cofrestru yn y categori cywir sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl, ond mae unrhyw gategorïau ychwanegol diangen wedi'u dileu. O ganlyniad, mae nifer yr unigolion â chategori cofrestru lluosog wedi gostwng 15.3% o 8,760 yn 2025 i 7,422 yn 2026.

Mae cofrestreion yn gymwys i weithio ym mhob un o'r categorïau y maent wedi'u cofrestru ynddynt oherwydd hynny, mae'r holl adrannau (2 i 6) wedi'u seilio ar nifer y cofrestreion sy'n gymwys i ymarfer ym mhob categori. Caiff unigolion sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau lluosog eu cyfrif ym mhob categori perthnasol er enghraifft, os yw athro ysgol hefyd wedi'u cofrestru fel athro addysg bellach, cant eu cyfrif ym mhob adran berthnasol am eu bod yn gymwys i weithio, a gallant fod yn gweithio (os ydynt yn rhan-amser) y ddau gategori.

## 1.2 Cyfuniadau cofrestru lluosog

Mae’r tabl isod yn fatrics dwy ffordd sy’n dangos yn benodol lle mae unigolion wedi’u cofrestru’n unigol (wedi’u hamlygu mewn gwyrdd) a pha gategorïau eraill y maent hefyd wedi’u cofrestru ynddynt. I bwysleisio, mae unigolion sydd wedi’u cofrestru mewn categorïau lluosog yn cael eu cyfrif ym mhob categori perthnasol. Er enghraifft, os yw athro ysgol hefyd wedi'u cofrestru fel gweithiwr cymorth dysgu ysgol ac athro addysg bellach byddant yn cael eu cyfrif ym mhob adran berthnasol gan eu bod yn gymwys i weithio, neu gallant fod yn gweithio (os ydynt yn rhan amser) ym mhob un o'r tri chategori.

**Tabl 1.2: Matrics yn dangos cyfuniadau cofrestru lluosog i gofrestreion yn 2026.**

| Categorïau cofrestreion | Cod | ATH | GCDY | AAB | GCDAB | AAB | DO | DSW | GIC | GCIC | ATHA | GCYA | ASAA | GCSAA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Athro ysgol | ATH | **30,170** | 3,618 | 568 | 249 | 10 | 17 | 105 | 10 | 10 | 306 | 56 | 10 | 5 |
| Gweithiwr cymorth dysgu ysgol | GCDY | 3,618 | **40,578** | 591 | 1,230 | 3 | 26 | 182 | 16 | 59 | 141 | 318 | 15 | 37 |
| Athro addysg bellach | AB | 568 | 591 | **3,873** | 927 | 224 | 25 | 664 | 27 | 8 | 62 | 22 | 14 | 7 |
| Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach | GCDAB | 249 | 1,230 | 927 | **2,394** | 24 | 12 | 296 | 18 | 10 | 32 | 58 | 10 | 26 |
| Pennaeth neu uwch arweinydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg bellach | AAB | 10 | 3 | 224 | 24 | **116** | 1 | 47 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymarferydd addysg oedolion | DO | 17 | 26 | 25 | 12 | 1 | **268** | 9 | 0 | 1 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith | DSW | 105 | 182 | 664 | 296 | 47 | 9 | **2,279** | 4 | 13 | 14 | 12 | 6 | 5 |
| Gweithiwr ieuenctid cymwysedig | GIC | 10 | 16 | 27 | 18 | 2 | 0 | 4 | **366** | 29 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig | GCIC | 10 | 59 | 8 | 10 | 0 | 1 | 13 | 29 | **562** | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Athro ysgol annibynnol | ATHA | 306 | 141 | 62 | 32 | 0 | 2 | 14 | 0 | 0 | **1,707** | 80 | 11 | 8 |
| Gweithiwr cymorth ysgol annibynnol | GCYA | 56 | 318 | 22 | 58 | 0 | 2 | 12 | 1 | 1 | 80 | **1,247** | 7 | 23 |
| Athro sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 | ASAA | 10 | 15 | 14 | 10 | 0 | 1 | 6 | 0 | 0 | 11 | 7 | **66** | 10 |
| Gweithiwr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16 | GCSAA | 5 | 37 | 7 | 26 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 8 | 23 | 10 | **289** |

# 2. Canfyddiadau allweddol

## 2.1 Athro ysgol

Gostyngodd nifer yr athrawon ysgol cofrestredig o 2025 i 2026 o 2.3% (34,443 yn 2026; 35,266 yn 2025).

Mae mwyafrif yr athrawon ysgol yn fenywod (76.1%), sef cynnydd o 0.3% o'i gymharu â'r llynedd.

Datganodd 93.3% o athrawon ysgol eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn, cynnydd o 0.6% o'i gymharu â'r llynedd (3.4% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, mae 65.1% yn uniaethu fel Cymry a 23.8% fel Prydeinwyr (cynnydd o 0.8% a chynnydd o 0.1% yn y drefn honno o'i gymharu â'r llynedd), gyda 3.2% yn anhysbys.

Mae nifer y rhai cofrestredig a enillodd statws athro cymwysedig (SAC) bum mlynedd yn ôl wedi gostwng ychydig (20.2% yn 2026; 20.3% yn 2025) ond mae'n parhau i fod yn uwch nag yr oedd yn 2022 (19.9%).

Canran yr athrawon ysgol sy'n siarad Cymraeg yw 33.8%. Mae 27.1% o athrawon ysgol yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol, gydag ychydig iawn o amrywiad o flwyddyn i flwyddyn.

Yng Nghymru, nid yw SAC yn benodol i ystod oedran na phwnc. O'r athrawon ysgolion uwchradd ac ysgolion canol sy'n dysgu mathemateg, Saesneg, neu Gymraeg, mae 77.3%, 75.1% a 68.5% yn y drefn honno wedi'u hyfforddi yn y pwnc y maent yn ei ddysgu. O ran y pynciau sylfaen, ac eithrio technoleg gwybodaeth (43.1%), mae cyfran yr ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion canol sydd wedi'u hyfforddi yn y pwnc y maent yn ei ddysgu yn amrywio rhwng 71.0% ac 87.8%.

Wrth adolygu carfan 2021 o bobl gofrestredig, arhosodd 75.1% wedi'u cofrestru yn 2026 ar ôl pum mlynedd, tra na chadwodd 21.5% eu cofrestriad gyda CGA. Wrth adolygu carfan 2016, arhosodd 57.3% wedi'u cofrestru yn 2026 ar ôl 10 mlynedd, tra na chadwodd 39.2%.

## 2.2 Gweithiwr cymorth dysgu ysgol

Roedd nifer y gweithwyr cymorth dysgu ysgol cofrestredig yn 45,819 yn 2026. Mae hyn yn ostyngiad o 0.1% ers 2025 (45,887).

Mae cyfran uwch (84.4%) yn fenywod o gymharu â'r grwpiau cofrestru eraill (1.1% yn llai na'r llynedd). Yr ail gategori uchaf o ran cyfran y menywod cofrestredig yw athrawon ysgol, gyda 76.1%.

Mae 20.8% o weithwyr cymorth dysgu ysgol o dan 25 oed, sy'n gynnydd o 1.0% ers 2025.

Datganodd 81.0% eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn, ac nid oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer 9.8%. O ran hunaniaeth genedlaethol, mae 47.8% o weithwyr cymorth dysgu ysgol yn ystyried eu hunain yn Gymry, ac nid oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer 9.7%.

Mae 21.3% yn gallu siarad Cymraeg ac mae 18.0% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (nid oedd gwybodaeth ar gael ar gyfer 7.0% a 7.1% yn y drefn honno).

Wrth edrych ar garfan 2021 o bobl gofrestredig, arhosodd 47.9% ohonynt wedi'u cofrestru yn 2026 ar ôl pum mlynedd, symudodd 12.4% i gategori cofrestru gwahanol, ac ni chadwodd 39.7% eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.3 Athro addysg bellach

Mae nifer yr athrawon addysg bellach (AB) cofrestredig wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, ac ar hyn o bryd mae'n sefyll ar 6,125 yn 2026, sef gostyngiad o 7.0% ers 2025.

Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau yn fwy cytbwys o'i gymharu â'r sector ysgolion, gyda 59.0% yn fenywod a 41.0% yn ddynion.

Mae 47.9% o athrawon AB yn 50 oed neu'n hŷn, o'i gymharu â 28.2% o athrawon ysgol.

Dynododd 80.9% o athrawon AB eu hethnigrwydd fel Gwyn (11.9% yn anhysbys). Dynododd 49.0% o athrawon AB eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymro/Cymraes a 27.6% fel Prydeiniwr/Prydeinwraig, gyda 11.9% yn anhysbys.

Dywedodd 18.8% o athrawon AB eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu weddol rugl, ac mae 13.3% o athrawon AB yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (10.1% a 10.2% yn anhysbys).

Wrth adolygu carfan 2021 o bobl a gofrestrodd, roedd 57.4% o athrawon AB yn dal i fod wedi'u cofrestru yn yr un categori ar ôl pum mlynedd, newidiodd 8.7% eu categori cofrestru, ac ni chadwodd 33.9% eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.4 Gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach

Mae nifer y rhai sydd wedi'u cofrestru yn y categori cymorth dysgu Addysg Bellach (AB) wedi gostwng o 13.2% ers 2025 (5,117 yn 2025; 4,440 yn 2026). Mae hyn yn rhannol oherwydd tynnu unigolion a oedd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un categori ond nad oedd angen iddynt fod felly.

Mae mwyafrif y gweithwyr cymorth dysgu AB yn fenywod (67.4%); mae hyn yn wahanol i athrawon AB, lle mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn fwy cyfartal.

Datganodd 83.6% o weithwyr cymorth dysgu AB eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (5.9% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, nododd 47.0% eu bod yn Gymry a 32.9% yn Brydeinwyr (5.9% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 17.4% yn gallu siarad Cymraeg ac mae 11.7% yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (5.5% yn anhysbys yn y ddau achos).

Wrth adolygu carfan 2021 o bobl a oedd wedi cofrestru, roedd 34.1% o weithwyr cymorth dysgu AB yn dal i fod wedi'u cofrestru yn yr un categori ar ôl pum mlynedd, newidiodd 23.7% eu categori cofrestru, ac ni chadwodd 42.2% eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.5 Pennaeth neu uwch arweinydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg bellach

Mae gan y categori Pennaeth neu uwch arweinydd yn gweithio mewn sefydliadau addysg bellach 365 o bobl wedi'u cofrestru yn 2026, sef cynnydd o 1.1% o gymharu â 2025 (361).

O ran y rhaniad rhwng y rhywiau, roedd 56.2% yn fenywod, 35.6% yn ddynion, ac ni nodwyd y 8.2% arall.

Mae 50.9% o benaethiaid ac uwch-arweinwyr addysg bellach yn 50 oed neu'n hŷn, o gymharu â 47.9% o athrawon addysg bellach.

Datganodd 77.8% o benaethiaid ac uwch-arweinwyr addysg bellach eu bod yn wyn (18.9% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, nododd 47.4% eu bod yn Gymry a 24.1% yn Brydeinwyr (18.9% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 24.1% yn gallu siarad Cymraeg ac mae 17.8% yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (16.4% yn anhysbys yn y ddau achos).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r gofrestr yn 2025. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 361 o unigolion a oedd wedi'u cofrestru yn 2025, bod 30 ohonynt wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr, a bod 34 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.

## 2.6 Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith

Mae nifer y rhai sydd wedi cofrestru yn y categori dysgu seiliedig ar waith (DSW) wedi gweld gostyngiad o 5.2% ers 2025 (3,426 yn 2025; 3,247 yn 2026).

Mae'r rhaniad yn ôl rhyw yn dangos bod 62.1% o ymarferwyr DSW yn fenywod a 37.9% yn ddynion.

Datganodd 88.3% o ymarferwyr DSW eu bod o gefndir ethnig Gwyn (7.0% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, nododd 52.4% eu bod yn Gymry a 30.0% yn Brydeinwyr (7.0% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, dywedodd 16.6% o ymarferwyr DSW eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac roedd 12.6% yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (4.9% yn anhysbys yn y ddau achos).

Wrth adolygu carfan 2021 o gofrestron, roedd 45.8% o ymarferwyr DSW yn dal i fod wedi cofrestru yn yr un categori ar ôl pum mlynedd, newidiodd 8.3% eu categori cofrestru, ac ni wnaeth 46.0% gadw eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.7 Ymarferydd addysg oedolion

Yn 2026, roedd gan ymarferydd dysgu oedolion yn y gymuned 328 o bobl wedi cofrestru, sef cynnydd o 15.5% o gymharu â 2025 (284).

Mae'r dadansoddiad yn ôl rhyw yn dangos bod 78.7% o ymarferwyr dysgu oedolion yn fenywod, 19.5% yn ddynion, ac 1.8% heb nodi eu rhyw.

Yn debyg i athrawon ysgol ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, mae'r dosbarthiad oedran ymhlith ymarferwyr dysgu oedolion yn eithaf cytbwys, gyda nifer dda o ymarferwyr ar draws yr ystod oedran 30-60. Y grŵp oedran 50-59 a welodd y ganran uchaf o bobl wedi cofrestru, sef 31.4%.

Datganodd 68.3% o ymarferwyr dysgu oedolion eu bod yn wyn (gyda 27.1% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, nododd 39.9% eu bod yn Gymry a 26.5% yn Brydeinwyr (gyda 26.5% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 13.1% yn gallu siarad Cymraeg ac mae 6.1% yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (gyda 25.9% a 26.8% yn anhysbys yn y drefn honno).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r gofrestr yn 2025. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 284 o unigolion a oedd wedi cofrestru yn 2025, bod 60 ohonynt wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr, a bod 104 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.

## 2.8 Gweithiwr ieuenctid cymwys

Mae gweithwyr ieuenctid cymwys yn gymwys i gofrestru gyda CGA os oes ganddynt un o'r cymwysterau gorfodol a restrir yn y Rheoliadau. Mae nifer y rhai sydd wedi'u cofrestru yng nghategori'r sector gwaith ieuenctid cymwys wedi gweld gostyngiad o 6.0% ers 2025 (468 yn 2025; 440 yn 2026).

Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r mwyafrif yn y grŵp cofrestru gwaith ieuenctid, sef 69.1%.

Mae proffil oedran gweithwyr ieuenctid cymwys yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gweithlu o fewn y categorïau oedran 30-39 a 40-49, sef 28.0% a 29.3%. Mae 11.4% yn iau na 30 oed. Canran y rhai sydd wedi cofrestru ac sy'n 60 oed neu'n hŷn yw'r isaf ar draws pob categori cofrestru, sef 7.5%.

Datganodd 83.0% o weithwyr ieuenctid eu bod yn Wyn (10.5% yn anhysbys). O ran cenedligrwydd, datganodd 56.6% eu bod yn Gymry, a 25.0% yn Brydeinwyr (10.2% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 18.2% o weithwyr ieuenctid yn gallu siarad Cymraeg ac mae 11.1% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (7.5% yn anhysbys yn y ddau achos, yn y drefn honno).

O garfan 2021, mae 55.7% o weithwyr ieuenctid yn parhau i fod wedi'u cofrestru yn eu categorïau priodol ar ôl pum mlynedd, mae 8.8% wedi'u cofrestru mewn categori arall, ac nid oedd 35.6% wedi cadw eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.9 Gweithiwr cymorth ieuenctid cymwys

Mae gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys yn gymwys i gofrestru gyda CGA os oes ganddynt un o'r cymwysterau gorfodol a restrir yn y Rheoliadau. Mae nifer y rhai sydd wedi cofrestru yn nghategori gweithiwr cymorth ieuenctid cymwys wedi gostwng o 4.4% ers 2025 (699 yn 2025; 668 yn 2026).

Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r mwyafrif yn y grŵp cofrestru gwaith cymorth ieuenctid, sef 72.3%.

Mae proffil oedran gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys yn debyg i broffil gweithwyr ieuenctid cymwys, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithlu yn y categorïau oedran o dan 30 a 30-39, sef 24.0% a 31.6% yn y drefn honno.

Datganodd 84.6% o weithwyr cymorth ieuenctid eu bod yn wyn (10.2% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, datganodd 59.7% eu bod yn Gymry, a 23.2% yn Brydeinwyr (10.2% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 20.4% o weithwyr cymorth ieuenctid yn gallu siarad Cymraeg ac mae 15.9% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (7.6% yn anhysbys yn y ddau achos).

Wrth adolygu carfan 2021 o bobl a oedd wedi cofrestru, roedd 39.9% o weithwyr cymorth ieuenctid cymwys yn dal i fod wedi cofrestru yn yr un categori ar ôl pum mlynedd, symudodd 17.8% i gategori cofrestru gwahanol, ac ni chadwodd 42.3% eu cofrestriad gyda CGA.

## 2.10 Athro ysgol annibynnol

Mae nifer yr athro ysgol annibynnol cofrestredig wedi codi dros y tair blynedd diwethaf, gan weld cynnydd o 6.3% rhwng 2025 (1,988) a 2026 (2,113).

Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r mwyafrif o'r gweithlu athro ysgol annibynnol, sef 63.9%.

Mae proffil oedran athro ysgol annibynnol yn debyg i broffil athro ysgol yn gyffredinol, gyda'r nifer mwyaf o unigolion yn y grŵp oedran 40-49 (31.5%).

Datganodd 85.3% o athrawon ysgolion annibynnol eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (5.3% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, datganodd 37.2% eu bod yn Gymry, a 38.9% yn Brydeinwyr – y ganran uchaf ymhlith yr holl grwpiau cofrestru (5.2% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 9.6% o athro ysgol annibynnol yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 3.7% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg – y ganran isaf ymhlith yr holl gategorïau cofrestru (2.7% a 2.8% yn anhysbys, yn y drefn honno).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r gofrestr yn 2024. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 1,988 o unigolion a oedd wedi'u cofrestru yn 2025, bod 312 wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr a bod 437 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.

## 2.11 Gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol

Mae nifer y gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol sydd wedi cofrestru wedi codi dros y tair blynedd diwethaf, gan weld cynnydd o 17.0% rhwng 2025 (1,378) a 2026 (1,612).

Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol, sef 72.3%.

Mae proffil oedran y gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol yn dangos bod 30.3% ohonynt o dan 30 oed (o'i gymharu ag 8.1% o athrawon ysgolion annibynnol).

Datganodd 85.5% o'r gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol eu bod yn Wyn (3.8% yn anhysbys). O ran cenedligrwydd, datganodd 36.1% eu bod yn Gymry, a 37.5% yn Brydeinwyr (3.8% yn anhysbys).

O'r rhai a wnaeth ddatganiad, mae 8.9% o'r gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 4.1% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (2.2% a 2.3% yn anhysbys yn y drefn honno).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r gofrestr yn 2024. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 1,378 o unigolion a oedd wedi cofrestru yn 2025, bod 410 ohonynt wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr, a bod 644 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.

## 2.12 Athro sefydliad annibynnol arbennig ôl-16

Mae nifer yr rhai sydd wedi cofrestru fel athro sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 oed wedi gostwng o 7.2%, o 97 yn 2025 i 90 yn 2026. Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu o athrawon mewn sefydliadau arbennig annibynnol ar gyfer pobl dros 16 oed, sef 74.4%.

Mae proffil oedran yr athrawon hyn yn dangos mai'r grwpiau mwyaf yw athrawon rhwng 40 a 49 oed (30.0%). Mewn cyferbyniad, dim ond 4.4% sydd o dan 30 oed. Datganodd 83.3% o'r athrawon hyn eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (gyda 10.0% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, datganodd 42.2% eu bod yn Gymry, a 32.2% yn Brydeinwyr (gyda 10.0% yn anhysbys).

Ymhlith y rhai a wnaeth ddatganiad, mae 15.6% o'r athrawon hyn yn gallu siarad Cymraeg ac mae 10.0% wedi datgan eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (gyda 4.4% yn anhysbys yn y ddau achos).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r Gofrestr yn 2024. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 97 unigolyn a oedd wedi'u cofrestru yn 2025, bod 31 ohonynt wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr, a bod 24 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.

## 2.13 Gweithiwr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16

Mae nifer y rhai sydd wedi cofrestru fel gweithiwr cymorth sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 oed wedi gweld cynnydd o 18.2%, o 285 yn 2025 i 337 yn 2026.

Fel y categorïau cofrestru eraill, menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithlu cymorth dysgu yn y sefydliadau hyn, sef 74.2%.

Mae 54.3% o'r gweithwyr cymorth dysgu yn y sefydliadau hyn yn 39 oed neu iau.

Mae 69.1% o'r gweithwyr cymorth dysgu yn y sefydliadau hyn yn nodi eu bod yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn (gyda 10.1% yn anhysbys). O ran hunaniaeth genedlaethol, mae 34.7% wedi nodi eu bod yn Gymry, a 24.3% yn Brydeinwyr (gyda 10.1% yn anhysbys).

O'r rhai a ddarparodd wybodaeth, mae 9.2% o'r gweithwyr cymorth dysgu yn y sefydliadau hyn yn gallu siarad Cymraeg, ac mae 4.5% wedi nodi eu bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (2.7% a 3.0% yn y drefn honno).

O ran cadw staff, nid oes tueddiadau pum mlynedd ar gael oherwydd i'r categori gael ei gyflwyno i'r gofrestr yn 2024. Fodd bynnag, mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn dangos, o'r 285 o unigolion a oedd wedi cofrestru yn 2025, bod 63 ohonynt wedi tynnu eu henwau oddi ar y Gofrestr, a bod 115 wedi ymuno â'r Gofrestr yn 2026.